**DATGANIADAU BARN YSGRIFENEDIG / WRITTEN STATEMENTS OF OPINION**

**A GYFLWYNWYD / TABLED ON 15/05/01**

R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant
R Signifies the Member has declared an interest

# OPIN-2001-0032 Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Clefyd Siwgr/ Diabetes National Service Framework

16 May 2001 Raised by Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther

No Subscribers

*Mae'r Cynulliad hwn yn croesawu'r Llw Clefyd Siwgr a luniwyd gan Diabetes UK, sy'n tynnu sylw at pa mor ddifrifol yw'r clefyd siwgr fel her ym maes iechyd, a'i bod yn bwysig bod*

*- Yr afiechyd yn cael ei ganfod yn gynnar*
*- Y safonau gofal yn gyson*
*- Y gofal yn canolbwyntio ar y cleifion*
*- Digon o adnoddau ar gael ar gyfer gwasanaethau clefyd siwgr*

*Mae'r Cynulliad hwn hefyd yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Clefyd Siwgr. Mae'n galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y Fframwaith yn adlewyrchu gwir anghenion pobl sy'n dioddef o'r Clefyd Siwgr, fel y nodir yn y Llw, a hefyd sicrhau bod ymrwymiadau penodol yn cael eu gwneud mewn perthynas ag adnoddau.*

*This Assembly welcomes Diabetes UK's Diabetes Pledge, which highlights the seriousness of diabetes as a health challenge, and the importance of:*
*- Early diagnosis*
*- Consistency of care standards*
*- Patient-centred care*
*- Adequate resources for diabetes services*

*This Assembly also welcomes the Government of Wales commitment to develop a Diabetes*

*National Service Framework. It calls on the Government of Wales to ensure that the Framework reflects the real needs of people with Diabetes, as identified in the Diabetes Pledge, and also to ensure that specific resource commitments are made.*

## OPIN-2001-0028 Parch at Gymru sy’n Rhydd o Organebau wedi’u Haddasu yn Enetig/ Respect for GM-Free Wales

03 May 2001 Raised by Richard Edwards

10 Subscribers:

- Christine Chapman
- Owen John Thomas MA
- Karen Sinclair
- Janet Ryder
- Janet Davies
- Rhodri Glyn Thomas
- Geraint Davies
- Val Feld
- Ron Davies
- John Griffiths LLB

*Mae’r Cynulliad hwn yn gofyn i berchennog Fferm Castell Cenlas, Sir Benfro i barchu dyhead y genedl, fel y’i mynegwyd drwy’r Cynulliad hwn, fod Cymru yn rhydd o Organebau wedi’u Haddasu’n Enetig.*

*This Assembly requests the owner of Castle Cenlas Farm, Pembrokeshire to respect the national aspiration, as expressed through this Assembly, for Wales to be GM-free.*

## OPIN-2001-0026 Y Cytundeb Cyffredinol ar Fasnach mewn Gwasanaeth/ The General Agreement on Trade in Service

03 May 2001 Raised by Peter Black

1 Subscriber:

- Gareth Jones

*Mae’r Cynulliad yn croesawu’r datganiad ym Mhapur Gwyn diweddar y Llywodraeth ar Globaleiddio, sy’n cydnabod rôl y llywodraeth o safbwynt sicrhau bod gwasanaethau sylfaenol*

*yn cael eu darparu i bawb; yn nodi bod trafodaethau'n cael eu cynnal er mwyn ehangu cwmpas y Cytundeb Cyffredinol ar Fasnach mewn Gwasanaeth (GATS) y WTO; bod y GATS yn berthnasol i bob gwasanaeth y mae modd ei fasnachu, gan gynnwys gwasanaethau cyhoeddus, os cânt eu darparu'n fasnachol neu mewn cystadleuaeth â chyflenwyr eraill; bod y GATS yn berthnasol i bob lefel o'r llywodraeth, gan gynnwys awdurdodau lleol; ac yn galw ar y Llywodraeth i asesu'r effaith tebygol y bydd ehangu'r GATS yn ei gael ar ddarparu gwasanaethau allweddol.*

*The Assembly welcomes the statement in the Government's recent Globalisation White Paper recognising the role of government in ensuring basic services are provided to all; notes that negotiations to expand the reach of the WTO's General Agreement on Trade in Service (GATS) are underway; that the GATS applies to all trade-able service, including public services, if they are provided commercially or in competition with other suppliers; that the GATS applies to all levels of government, including local authorities; and calls for the Government to assess the likely impact of the extension of the GATS on the provision of key services.*

## OPIN-2001-0018 Llywodraeth yr UD a Kyoto/US Government and Kyoto

04 Apr 2001 Raised by Ron Davies, Richard Edwards, Janice Gregory, John Griffiths LLB, Alun Pugh

3 Subscribers:

Christine Chapman
Lorraine Barrett
Cynog Dafis

*Mae'r Cynulliad yn cofio'r llifogydd trychinebus yng Nghymru yr hydref diwethaf; yn credu bod angen gweithredu byd-eang er mwyn gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd; ac yn galw ar Lywodraeth yr UD i gyflawni ei dyletswyddau rhyngwladol sy'n deillio o gytundeb Kyoto.*

*The Assembly recalls the disastrous flooding in Wales last autumn; believes global action is required to counteract climatic change and calls upon the US Government to honour its international obligations arising from the Kyoto agreement.*